PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Polisi Cefnogi Myfyrwyr sy'n Ofalwyr**

1. **Cyflwyniad**:

   Mae'r polisi hwn ar gyfer staff y Brifysgol â chyfrifoldeb dros gynghori/cefnogi myfyrwyr sydd eisoes yn ofalwyr neu sy'n rhagweld y byddant yn ofalwyr. Yn ogystal, mae'r polisi ar gyfer myfyrwyr sy'n ateb meini prawf y diffiniad isod. Cafodd y polisi ei greu er mwyn cydnabod y rhwystrau sy'n wynebu myfyrwyr sy'n ofalwyr wrth ymdopi ag astudiaeth lefel gradd. Cynigir cyngor i ddarpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol ac aelodau staff ar brosesau ac arferion sydd yn eu lle ar gyfer cefnogi myfyrwyr sy'n ofalwyr gydol eu taith ddysgu ym Mhrifysgol Bangor.
   Mae niferoedd y myfyrwyr â chyfrifoldebau gofal o fewn addysg uwch yn tyfu. Gall bod yn Ofalydd ac yn fyfyriwr/wraig ddod ag effeithiau negyddol, o ran cyllid, lles ac iechyd, dal ati gyda'r cwrs a dilyniant wedyn. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfrifoldeb gofalu ac effaith hynny ar faterion yn ymwneud ag astudio.

2. **Ein diffiniad o fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofal**:

   Rhywun sy'n gofalu'n ddi-dâl am aelod o'r teulu, partner neu ffrind ag anabledd corfforol neu synhwyraidd, anabledd dysgu, cyflwr meddygol, anawsterau iechyd meddwl neu rywun sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol.
   Fel arfer, nid yw'n cynnwys rhieni a gofalwyr plant, oni bai bod gan y plentyn anghenion gofal arbennig yn deillio o anabledd.
   **Mae'r cyfrifoldeb am gadarnhau statws fel gofalydd yn gorwedd gyda'r myfyrwyr eu hunain.**

3. **Pwrpas a sail**:

   Mae Prifysgol Bangor wedi ymroi i ehangu mynediad a chyfranogiad i bawb sydd wedi wynebu rhwystrau rhag mynychu addysg uwch: y genhedlaeth gyntaf i fynd i brifysgol, cymunedau o fewn y 40% isaf ym Mynegai Amddifadedd Cymru, yn ogystal â Gofalwyr a Rhai â Phrofiad o Ofal. Mae'n bosibl iawn y gallai'r grwpiau olaf hyn fod wedi tan gyflawni oherwydd pwysau ar eu hamser. Gall myfyrwyr sy'n ofalwyr wynebu galwadau arbennig o ran rheoli amser yn sgil straen posibl gyda gofalu a rheoli cyfrifoldebau'n gysylltiedig â hynny. Yn ogystal, mae cyfleoedd gwaith rhan amser cyflogedig

yn fwy cyfyngedig yn ystod eu cwrs, yn ogystal â llai o gyfle i gymdeithasu â chyfoedion yn y Brifysgol. Mae Prifysgol Bangor o'r farn na ddylai cyfrifoldebau gofal ynddynt eu hunain rwystro myfyrwyr rhag llwyddo yn eu hastudiaethau ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i hwyluso'r llwyddiant hwn. Ymdrechir i sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr yn profi anfantais, tra sicrheir nad oes cyfaddawdu o ran safonau academaidd.

4. **Polisi**:
    - Statws: Bydd myfyrwyr sy'n ofalwyr ac yn nodi hynny wrth wneud cais, un ai drwy roi √ ym mlwch UCAS neu drwy broses ymgeisio arall, yn derbyn gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael. Er hynny, derbynir y bydd rhai gofalwyr yn dewis peidio â datgan eu statws ar y pryd, neu efallai y bydd eu cyfrifoldebau gofal yn eu harwain i nodi hynny'n hwyrach yn ystod eu cwrs. Cyfrifoldeb y myfyrwyr sy'n ofalwyr yw darparu cadarnhad o'u statws os oes angen. Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod natur amrywiol cyfrifoldebau gofal a gellir derbyn gwahanol ddogfennau sy'n cadarnhau statws unigolion fel gofalwyr:
    - Nodyn gan yr unigolyn yn nodi natur y cyfrifoldebau gofal, sut y gallai effeithio ar astudio ac am ba hyd y rhagwelir hynny;
    - Llythyr meddyg yn cadarnhau statws y gofalydd ac effaith posibl y cyfrifoldebau ar y myfyriwr/wraig;
    - Asesiad / cynllun cefnogi / datganiad gan yr Awdurdod Lleol;
    - Llythyr o gefnogaeth gan asiantaeth leol, e.e. Gweithredu dros Blant
    - Tystiolaeth resymol arall.

    Mae Prifysgol Bangor yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth bellach neu dystiolaeth yn cadarnhau statws gofalydd os bydd angen.

4.1 Ehangu Mynediad: mae myfyrwyr sy'n ofalwyr yn un o'n grwpiau ehangu mynediad ac yn gymwys ar gyfer y gefnogaeth ychwanegol a gynigir, yn arbennig felly'r Fwrsariaeth i Ofalwyr.

4.2 Absenoldeb: bydd angen rheoli absenoldebau'n ymwneud â chyfrifoldebau gofal a gallai cosb fod yn amhriodol. Dylid rhoi ystyriaeth i ofalwyr a allai fod angen gadael y dosbarth ar fyr rybudd yn sgil y cyfrifoldebau. Bydd angen i Diwtoriaid Personol/Uwch Diwtoriaid ystyried amgylchiadau myfyrwyr sy'n ofalwyr yn ddwys.

4.3 Amgylchiadau eithriadol: gall cyfrifoldebau parhaol olygu y gallai fod achlysuron niferus pan fydd amgylchiadau lliniarol gan fyfyrwyr sy'n ofalwyr. Dylid cydnabod y gallai gofalwyr fod angen cadw'u ffonau symudol yn ymyl yn y dosbarth. Ni ddylai fod angen i'r gofalwyr gyfiawnhau hyn dro ar ôl tro.

O dan ‘Fy Mangor’, gall pob myfyriwr (gan gynnwys myfyrwyr sy’n ofalwyr) greu amgylchiadau arbennig o fewn y Ganolfan Gais a gellir defnyddio’r un amgylchiad fwy nag unwaith, e.e. ar gyfer estyniadau, sefyll arholiad am y tro cyntaf etc. Bydd pob aelod perthnasol o’r staff wedyn yn ymwybodol o amgylchiadau arbennig o’r math.

4.4 <u>Adolygu statws</u>: gan y gall cyfrifoldebau gofal newid dros amser, dylid sicrhau cyfle, er enghraifft mewn tiwtorialau personol, i anghenion cefnogi gael eu hadolygu.

5. **Cyfrifoldebau staff a myfyrwyr**:

- <u>Pennaeth Derbyniadau</u>: goruchwylio polisi a phrosesau derbyn
- <u>Tiwtor Academaidd Personol</u>: cyswllt cyntaf ar gyfer materion academaidd ac anacademaidd.

- Anogir Gofalwyr i roi gwybod am eu cyfrifoldebau gofal yn ystod y broses ymgeisio ac wrth gofrestru er mwyn i wybodaeth ar gefnogaeth briodol gael ei rhannu. Bydd peidio â datgan yn cyfyngu ar allu Prifysgol Bangor i gynnig cefnogaeth briodol i fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofal.

- Cyfrifoldeb y Gofalwyr yw darparu cadarnhad o statws, gweler 4.1 uchod os gwelwch yn dda.

- Dylai Gofalwyr wneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwybod i’w Tiwtor Personol am eu cyfrifoldebau gofal a thrafod unrhyw faterion a allai effeithio ar eu hastudio.

- Mae angen i aelodau staff fod yn ymwybodol o statws unrhyw Ofalwyr sy’n dymuno gwisgo’r band llaw coch a gynigir.

6. **Canllawiau Staff**:

- Dylai aelodau staff nodi a bod yn ymwybodol o’r materion arbennig sy’n effeithio ar fyfyrwyr sy’n ofalwyr, yn arbennig o ran mynychu ac asesiadau.
- Dylai aelodau staff sicrhau bod myfyrwyr sy’n ofalwyr yn cael pob cyfle i afael yn eu hastudiaethau, gan gynnwys y cyfle i ddal fyny a chael at unrhyw waith a gollwyd.
- Nid yw’r darpariaethau hyn wedi’u llunio i roi mantais ormodol ond yn hytrach i ganiatáu myfyrwyr sy’n ofalwyr i gymryd rhan lawn heb brofi anfantais. Os nad yw’n bosibl i geisiadau am gefnogaeth neu ystyriaeth o’r fath gael eu caniatáu, rhaid rhoi rhesymau clir.
- Mae’n bwysig ystyried barn a dymuniadau’r myfyrwyr sy’n ofalwyr, yn hytrach na gweithredu set safonol o drefniadau.

- Tra dylid cynnig gradd briodol o hyblygrwydd, ni ddylid cyfaddawdu ar safonau academaidd. Mae angen cael cydbwysedd rhwng sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n ofalwyr yn profi anfantais nac ychwaith yn cael mantais ormodol dros eu cyd-fyfyrwyr.